

Seiberddiogelwch TM256 – manyleb y person ar gyfer

Darlithwyr Cyswllt

Patrwm cyflwyno: Patrwm cyflwyno B – bob blwyddyn rhwng mis Chwefror a mis Awst

Disgrifiad o'r modiwl

Mae Strategaeth Seiberddiogelwch Genedlaethol, 2016 ac ymgynghoriadau pellach gan Yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon wedi nodi'n glir:

- Bod ymosodiadau seiber yn bygwth llesiant economaidd y DU o hyd a bod prinder sgiliau seiberddiogelwch yn un o'r heriau sy'n debygol o lywio blaenoriaethau diogelwch y DU;
- Bod angen buddsoddi yn y gallu i ganfod, dadansoddi ac amddiffyn y llywodraeth a'r sectorau preifat yn erbyn ymosodiadau seiber.

Yn y cyd-destun hwn, caiff y radd BSc newydd mewn Seiberddiogelwch ei chreu a'i dylunio. Mae'r modiwl Seiberddiogelwch hwn yn un o ddau fodiwl craidd wedi'u dylunio fel rhan o'r cymhwyster. Bydd y modiwl yn cyfeirio'n bennaf at Gorff Gwybodaeth Seiberddiogelwch (CyBOK) a'r (Fframwaith Sgiliau ar gyfer yr Oes Wybodaeth) fframwaith sgiliau SFIA. Mae'r fframweithiau hyn yn disgrifio amrywiaeth o gymwyseddau a ddisgwylir gan Weithwyr Proffesiynol Diogelwch Gwybodaeth a Sicrwydd Gwybodaeth wrth iddynt gyflawni eu rolau yn effeithiol.

Mae Canolfan Seiberddiogelwch Genedlaethol y DU wedi datblygu corff o wybodaeth ar gyfer seiberddiogelwch (<https://www.cybok.org>), sy'n nodi tri pharth lefel uchel ar gyfer y maes:

1. diogelwch systemau;
2. diogelwch seilwaith;
3. diogelwch meddalwedd a llwyfannau.

Ar y cyd â dwy agwedd drawsbynciol:

1. dynol, sefydliadol a rheoleiddiol
2. ymosodiadau ac amddiffynfeydd.

Mae'r modiwl wedi'i drefnu'n bum bloc astudio:

- Bloc 1: *Cysyniadau Seiberddiogelwch*

- Bloc 2: *Diogelwch Systemau*
- Bloc 3: *Diogelwch Seilwaith, Lletya a Chymwysiadau*
- Bloc 4: *Gweithrediadau diogelwch a Rheoli Digwyddiadau*
- Bloc 5: *Hanfodion Fforensig Digidol*

Bydd disgwyl i'r darlithwyr sy'n addysgu'r Modiwl hwn ddilyn y datblygiadau seiberddiogelwch diweddaraf sy'n dod i'r amlwg dros gyfnod modiwl TM256.

Manyleb person

Dylid darllen y fanyleb person ar gyfer y cwrs hwn yn unol â'r fanyleb person cyffredinol ar gyfer darlithydd cyswllt yn Y Brifysgol Agored. Yn ogystal â bodloni'r holl ofynion a nodir yn y fanyleb person gyffredinol, dylech feddu ar y canlynol:

- Gradd israddedig neu brofiad proffesiynol cyfatebol mewn seiberddiogelwch, cyfrifiadura, TGCh neu faes sy'n gysylltiedig â TGCh;
- Profiad o addysgu, gweithio a/neu wneud gwaith ymchwil mewn un neu ragor o'r meysydd canlynol: diogelwch systemau, cryptograffeg, seilwaith, diogelwch lletya a chymwysiadau, diogelwch gweithrediadau a rheoli digwyddiadau a hanfodion fforensig digidol;
- Dealltwriaeth o'r materion cymdeithasol, proffesiynol, materion moesegol a chyfreithiol sy'n berthnasol i seiberddiogelwch;
- Brwdfrydedd dros ddatblygu gwybodaeth ac ymarfer myfyrwyr ym maes seiberddiogelwch a gosod hyn yng nghyd-destun ein byd modern.

Yn ddelfrydol, byddai ymgeiswyr hefyd yn meddu ar y canlynol:

- Profiad o ddefnyddio cymwysiadau ac adnoddau ffynhonnell agored seiberddiogelwch e.e. Kali Linux;
- Profiad o ddefnyddio amgylcheddau rhithwir e.e. VirtualBox a Netlab+.
- Profiad o addysgu seiberddiogelwch ar lefel israddedig a/neu ar lefel ôl-raddedig;
- Ardystiadau'r diwydiant (e.e. CASP+, CEH, CISSP, CRTSA, CyberOps).

Gwybodaeth ychwanegol

- Yn ogystal â marcio tri aseiniad a gaiff eu marcio gan diwtor (TMA) ac Arholiad, bydd angen i chi hefyd fonitro'r ffordd mae myfyrwyr yn mynd ati i gwblhau pedwar cwis rhyngweithiol ac ymateb i ymholiadau myfyrwyr am y cwisiau;
- Nid yw'r fanyleb cyfrifiadur ofynnol ar gyfer myfyrwyr Y Brifysgol Agored yn ddigon ar gyfer marcio aseiniadau'n electronig. Rydym yn argymhell monitor mawr (*o leiaf 17 modfedd*) neu ail sgrin ar gyfer marcio. Efallai y bydd angen llawer mwy o ofod gwag ar eich disg na'r hyn a argymhellir ar gyfer myfyrwyr.

Credydau a ddyfernir i'r myfyriwr am gwblhau modiwl yn llwyddiannus:	30
Nifer yr aseiniadau a gyflwynir gan y myfyriwr:	3
Dull cyflwyno aseiniadau:	2
Lefel y gofynion TGCh:	2
Nifer y myfyrwyr sy'n debygol o fod mewn grŵp safonol:	20
Band cyflog:	3
Y nifer amcangyfrifedig o oriau addysgu fesul wythnos:	3.5 awr